
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	16/08/2020
Pwnc / Subject:	Ymgynghori ar ddyfodol arolygiadau oedolion

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i arolygu gwasanaethau prawf. Mae ein hymatebion allweddol wedi eu crynhoi isod.

- Rydym yn cefnogi arolygu Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf ar wahân, gan fwydo canfyddiadau lleol i arolygiadau rhanbarthol.
- Byddai'n fuddiol cyhoeddi barnau am ba mor effeithiol y mae'r Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf yn bodloni targedau a gytunwyd gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, tra'n ystyried unrhyw dargedau ac amcanion a osodwyd gan y grŵp rhanbarthol hefyd.
- Er mwyn nodi'n glir pa mor effeithiol y caiff Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf eu rheoli a'u harwain, byddai'n fuddiol graddio'r safonau parth un sy'n berthnasol i bob Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf.
- O ystyried y ddarpariaeth ar gyfer cynlluniau gofynnol wrth gefn a amlinellir yn 3.10, byddai dull carfan yn fuddiol.
- Byddai'n fuddiol ystyried sut mae'r arweinwyr rhanbarthol yn monitro ac yn gwerthuso cyflwyno'n lleol gan yr Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf.
- Byddai'n fuddiol ystyried sut mae rhanbarth yn cynllunio'n strategol ac yn rheoli ansawdd ar draws ei faes cyfrifoldeb.
- Dylai arolygwyr ystyried sut mae'r uned ranbarthol yn sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn dod at ei gilydd yn effeithiol i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gefnogi cleientiaid.
- Er y bydd arolygwyr yn ystyried perfformiad yn unol â dangosyddion a gomisiynwyd, byddai'n ddefnyddiol ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd unrhyw ddangosyddion perfformiad y gallai'r uned ranbarthol eu gosod hefyd.
- Byddem yn cytuno â graddio perfformiad unedau rhanbarthol a lleol i nodi amrywiadau lleol mewn perfformiad.
- Gallai'r arolygiaeth gydgrynhoi'r data a'r canfyddiadau a gasglwyd mewn unrhyw flwyddyn gan yr Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf ac o arolygiadau rhanbarthol i nodi themâu cyffredin a meysydd pryder cenedlaethol o fewn arddull adrodd thematig.
- Heb gael haen ychwanegol o weithgarwch arolygu i fonitro'r gwasanaethau hynny y mae angen eu gwella, credwn fod cylch dwy flynedd yn rhesymol.
- Byddai model arolygu sy'n canolbwyntio ar gynnydd cadarnhaol cynaliadwy cleientiaid o fewn ffactorau fel llety neu gyflogaeth / addysg / hyfforddiant yn rhoi pwyslais yn fwy priodol ar effaith gwasanaethau.

- Gallai fod yn anodd i dîm arolygu werthuso cynnydd cynaliadwy cleient yn ystod cyfnod arolygiad. Felly, bydd y dull hwn yn dibynnu ar yr Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf / uned ranbarthol yn casglu, monitro a gwerthuso data a thystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau.

Byddai angen i unedau rhanbarthol ddangos sut maent yn defnyddio dull strategol o werthuso effaith gwasanaethau, a sut maent yn ymateb yn wybodus i'w gwerthusiad.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

CWESTIWN – Ai ffocws arolygu ar yr Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf lleol Newydd yw'r dull cywir?

O ystyried y strwythurau rheoli arfaethedig, rydym yn cytuno â'r cynnig ar gyfer arolygu Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf lleol ar wahân, gyda chanfyddiadau'n bwydo i arolygiadau rhanbarthol. Byddai hyn yn helpu osgoi gwanhau barnau, a byddai'n helpu darparu argymhellion mwy targedig.

CWESTIWN – Pa wybodaeth fyddai'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i'w chyhoeddi ar lefel Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf?

Byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi barnau am ba mor effeithiol y mae'r Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf leol yn bodloni targedau a gytunwyd gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, tra'n ystyried unrhyw dargedau ac amcanion a osodwyd gan y grŵp rhanbarthol hefyd.

Er mwyn nodi'n glir pa mor effeithiol y caiff Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf lleol eu rheoli a'u harwain, byddai'n fuddiol ystyried a llunio barnau / graddfeydd ar safonau parth un sy'n berthnasol i bob Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf. Byddai hyn yn golygu y gellir ffurfio argymhellion clir, teilwredig, lleol a byddai'n ffurfio sylfaen fuddiol, fwy tryloyw ar gyfer ffurfio graddfeydd rhanbarthol.

CWESTIWN – A ddylem ni gynnwys graddfeydd ar gyfer arweinyddiaeth, staffio a gwasanaethau lleol, yn ogystal â graddfeydd o ansawdd goruchwyllo achosion unigol?

Er mwyn nodi'n glir pa mor effeithiol y caiff Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf eu rheoli a'u harwain, byddai'n fuddiol ystyried a llunio barnau / graddfeydd ar safonau parth un sy'n berthnasol i bob Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf. Byddai hyn yn golygu y gellir ffurfio argymhellion clir, teilwredig, lleol a byddai'n ffurfio sylfaen fuddiol, fwy tryloyw ar gyfer ffurfio graddfeydd rhanbarthol.

CWESTIWN – A ydych chi'n gweld unrhyw broblem â ni'n symud oddi wrth ddull samplu i ddull carfan i arolygu parth dau?

O ystyried yr amod ar gyfer cynlluniau wrth gefn a amlinellir yn 3.10, byddai dull carfan yn fuddiol. Byddai maint y sampl ddilydol yn darparu nifer resymol o hyd i nodi problemau neu gryfderau yn y ffordd y mae pob Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf yn cyflwyno.

CWESTIWN – Pa agweddau ar sefydlu a chyflwyno gwasanaethau prawf y dylid eu harolygu a'u graddio ar lefel ranbarthol, yn hytrach na lefel Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf?

Byddai'n fuddiol ystyried sut mae'r arweinwyr rhanbarthol yn monitro ac yn gwerthuso cyflwyno gan yr Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf yn lleol, a sut maent yn ymateb i unrhyw ddiffygion y maent yn eu nodi ar lefel leol.

Byddai'n fuddiol ystyried sut caiff cynllunio strategol ei ddatblygu, a pha system rheoli ansawdd a ddefnyddir i sicrhau gwasanaeth sy'n gyson effeithiol ar draws ei faes cyfrifoldeb.

Gan y bydd gweithio mewn partneriaeth yn bwrpasol yn hanfodol o ran cefnogi cleientiaid, byddai'n ddefnyddiol ystyried sut mae'r uned ranbarthol yn sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol yn dod at ei gilydd yn effeithiol i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i alluogi cleientiaid i wneud cynnydd addas.

Bydd perfformiad yn unol â dangosyddion wedi'u comisiynu yn angenrheidiol, ond bydd yn ddefnyddiol ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd unrhyw ddangosyddion perfformiad ychwanegol y gallai'r uned ranbarthol eu gosod i alluogi cynnydd yn unol â'i chynllunio strategol a'i chynlluniau gwella ansawdd.

CWESTIWN – A ddylid graddio gwaith di-dâl, gwasanaethau adsefydlu ac ansawdd gwaith cyswllt âdioddefwyr ar lefel ranbarthol, yn hytrach na lefel Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf?

Mae dadleuon o blaid graddio perfformiad yr agweddau hyn ar y ddwy lefel. Mae hyn yn arbennig o wir gan y gallai fod amrywiadau lleol mewn perfformiad, a fyddai'n cael eu canfod a'u hamlygu'n well ar lefel leol, gan ddyrannu atebolrwydd ar lefelau lleol a rhanbarthol.

CWESTIWN – Bydd cyfrifoldeb am rai agweddau ar gyflwyno gwasanaethau prawf yn parhau i aros ar lefel genedlaethol, yn hytrach na lefel ranbarthol neu lefel Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf. Sut dylid bwrw ymlaen ag arolygu'r swyddogaethau hyn o 2021?

Byddai'n bosibl cydgrynhoi'r data a'r canfyddiadau a gasglwyd mewn unrhyw flwyddyn o arolygiadau Unedau Cyflawni Gwasanaethau Prawf ac arolygiadau rhanbarthol i nodi themâu cyffredin a meysydd sy'n destun pryder cenedlaethol o fewn arddull adrodd thematig. Byddai hyn yn darparu agenda y byddai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ymateb iddi.

CWESTIWN – A yw arolygu pob Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf a rhanbarth bob dwy flynedd yn ddull cymesur?

Heb gael haen ychwanegol o weithgarwch arolygu i fonitro'r gwasanaethau hynny y mae angen eu gwella, rydym yn cytuno â'r cynnig ar gyfer cylch dwy flynedd.

CWESTIWN – Beth yw'r ffordd orau o fesur deilliannau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth tra byddant yn cael eu goruchwyllo gan y gwasanaethau prawf? Ar ba ddeilliannau ddylem ni ganolbwyntio?

Mae'r rhagdybiaeth y bydd mewnbynnau o ansawdd da a goruchwyllo wedi'i reoli'n dda yn sicrhau deilliannau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn briodol, lle caiff ei brofi yn unol ag ansawdd y deilliannau a gyflawnir. Felly, bydd model sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gynnydd cadarnhaol cleientiaid, ac yn canolbwyntio arno o fewn ffactorau fel llety, cyflogaeth /addysg / hyfforddiant, camddefnyddio sylweddau neu weithgarwch troseddol, yn rhoi'r pwyslais yn fwy priodol ar effaith gwasanaethau. Byddai hyn yn golygu y gellir llunio barn ar ansawdd ac effeithiolrwydd ymyriadau i leihau ymddygiad troseddol.

Gallai fod yn anodd i dîm arolygu werthuso cynnydd cynaliadwy cleient yn ystod cyfnod arolygiad. Felly, bydd y dull hwn yn dibynnu ar yr Uned Cyflawni Gwasanaethau Prawf / uned ranbarthol yn casglu, monitro a gwerthuso data a thystiolaeth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, a thystiolaeth sy'n defnyddio'r gwerthuso hwn yn briodol i gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau. Er y byddai safonau arfaethedig parth dau yn galluogi barnau effeithiolrwydd yn erbyn unigolyn, byddai angen i unedau rhanbarthol ddangos sut maent yn defnyddio dull strategol o werthuso effaith y gwasanaethau, a sut maent yn ymateb yn wybodus i'w gwerthusiad.